

Cyngor Sir Penfro

Is-adran Seilwaith



ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL - MAI 2022

POSTERI ETHOLIADOL A DEUNYDD ARALL A RODDIR AR ASEDAU'R CYNGOR (PRIFFYRDD)

Sefyllfa'r awdurdod

Mae'r awdurdod yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr a phleidiau am arddangos deunydd ymgyrchu mewn perthynas ag etholiad neu refferendwm sydd ar y gweill. Dylai unrhyw bleidiau neu ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud hynny ystyried y canllawiau diweddaraf gan y Comisiwn Etholiadol.

Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn aros yn ddiuedd yn ystod etholiadau a refferenda. Am y rheswm hwn, ni fydd yr awdurdod yn rhoi caniatâd i ymgeiswyr na phleidiau arddangos eu deunydd ymgyrchu ar dir neu adeiladau sy'n eiddo i'r awdurdod.

Gorfodi

Yn y cyfnod cyn ac yn ystod yr etholiadau lleol, mae Cyngor Sir Penfro yn ceisio cydweithrediad a chymorth gan ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol o ran peidio â rhoi posterï a deunyddiau etholiadol ar asedau'r cyngor e.e. ar arwyddion traffig, colofnau goleuadau stryd, rheiliau o amgylch cylchfannau ac wrth groesfannau i gerddwyr ac ati.

Pan fydd arferion o'r fath yn digwydd o fewn Terfynau Priffyrdd ac ar Asedau Priffyrdd, bydd y blaid wleidyddol a nodwyd yn cael ei hysbysu, trwy'r asiant etholiadol, i gael gwared ar ddeunydd o'r fath. Ymhellach, pan fydd posterï a deunydd o'r fath yn cael eu hystyried yn niwsans a/neu'n berygl, cymerir camau ar unwaith, a bydd gan yr awdurdod yr hawl i adennill y costau yr eir iddynt wrth gael gwared arnynt, trwy anfonebu'r asiantiaid.

Trefniadau cyswllt

Gobeithiwn y bydd pob ymgeisydd ac asiant etholiadol yn ystyried y perygl a'r problemau a achosir yn sgil gosod posterï etholiadol fel y disgrifir, ac rydym yn ffyddiog na fydd angen cymryd camau gweithredu pellach yn ystod cyfnod yr ymgyrchu.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â chael gwared ar ddeunydd etholiadol ar asedau'r priffyrdd at dîm gofal strydoedd y cyngor. StreetCare@pembrokeshire.gov.uk; Ffôn: 01437 764551

Darren Thomas

Pennaeth Seilwaith
Chwefror 2022